



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YMCHWIL, DOGFENNU

# Ymweliadau a gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol â Chymru

Mae'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yn casglu gwybodaeth am deithwyr sy'n dod i mewn ac yn gadael y DU.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Gorffennaf 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 15 Chwefror 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Cyflwyniad

Gwybodaeth am y data

Crynodeb o ddata 2022

Y Cyfanswm

Data 2023

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Cyflwyniad

Cynhelir cyfweiliadau wyneb yn wyneb dienw gyda sampl ar hap o deithwyr wrth iddynt adael y DU, ac yn 2022 arweiniodd hyn at 44,395 o gyfweiliadau ymadael yn cael eu defnyddio ar gyfer yr Arolwg. Mae'r Arolwg yn adrodd ar ymweiliadau a gwariant dros amser Sylwch nad yw cymariaethau gwariant rhwng blynnyddoedd yn cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant.

Yn 2022, y sampl ar gyfer Cymru oedd 831. Tynnwyd sampl o'r holl brif borthladdoedd mynediad yn y DU, ac yng Nghymru mae hyn yn cynnwys maes awyr Caerdydd, Caergybi, Penfro ac Abergwaun.

## Gwybodaeth am y data

Mae'r data a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn yn deillio o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

**Cyfeiriwch at wefan SYG i gael rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr Arolwg.**

## Crynodeb o ddata 2022

- Cafwyd cyfanswm o 686,000 o ymweiliadau i Gymru (33% i lawr o gymharu â 2019) a £391 miliwn mewn gwariant (24% yn is nag yn 2019). Dyma'r gostyngiad mwyaf ymhlith rhanbarthau'r DU o gymharu â 2019, gyda nifer yr ymwelwyr bellach llawer yn is na rhanbarthau eraill.
- Mewn cyferbyniad â hyn, cafwyd 3.2 miliwn o ymweiliadau â'r Alban (7% yn is o gymharu â 2019) a'r gwariant uchaf erioed o £3.2 biliwn (cynnydd o 24% ers 2019).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweiliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- Ar gyfer Llundain cafwyd 16.1 miliwn o ymweliadau yn 2022 (26% yn is o gymharu â 2019) a gwariant cyffredinol o £14.1 biliwn (10% yn is o gymharu â 2019).
- Ar gyfer gweddill Lloegr cafwyd 13.2 miliwn o ymweliadau yn 2022, 22% yn is o gymharu â 2019, ac roedd gwariant cyffredinol hefyd i lawr (6% yn is na 2019) i £8.5 biliwn.

## Y Cyfanswm

Datgelodd data'r Arolwg fod 686,000 o ymwelwyr tramor wedi ymweld â Chymru yn 2022, o gymharu ag 1,023,000 o ymweliadau dros yr un cyfnod yn 2019.

Er nad oedd cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol y llynedd, roedd ymweliadau cyffredinol â Chymru 33% yn is na chyn y pandemig. Roedd y gwariant hefyd yn is (-24%); gwariodd ymwelwyr â Chymru £391 miliwn yn 2022, sy'n is na'r £515 miliwn yn 2019.

### Tabl 1a: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn chwarteri 1 a 2 o 2022

Cyfansymiau	Chwarter 1	Y newid ers 2019 [%]	Chwarter 2	Y newid ers 2019 [%]
Ymweliadau	73,000	-53%	184,000	-39%
Gwariant (£m)	45	-17%	101	-23%

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

**Tabl 1b: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn chwarteri 3 a 4 o 2022**

Cyfansymiau	Chwarter 3	Y newid ers 2019 [%]	Chwarter 4	Y newid ers 2019 [%]
Ymweliadau	259,000	-31%	171,000	-8%
Gwariant [£m]	150	-25%	95	-26%

Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2022

## Natur dymhorol

**Tabl 2a: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn chwarteri 1 a 2 o 2022**

Cyfansymiau	Chwarter 1	Y newid ers 2019 [%]	Chwarter 2	Y newid ers 2019 [%]
Ymweliadau	73,000	-53%	184,000	-40%
Gwariant [£m]	45	-17%	101	-23%

Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

## Tabl 2b: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn chwarteri 3 a 4 o 2022

Cyfansymiau	Chwarter 3	Y newid ers 2019 [%]	Chwarter 4	Y newid ers 2019 [%]
Ymweliadau	259,000	-32%	171,000	-8%
Gwariant [£m]	150	-25%	95	-26%

Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2022

O ran natur dymhorol, mae tuedd glir i'w gweld gyda gwariant ac ymweliadau yn cyrraedd uchafbwynt yn Ch3 (Gorffennaf - Medi), gyda 259,000 o ymweliadau (-32% o gymharu â 2019) a gwariant o £150 miliwn (-25% o gymharu â 2019). Mae Ch1 yn dangos y ffigurau isaf, yn ogystal â'r gostyngiad mwyaf sylweddol yn nifer yr ymwelwyr o gymharu â 2019 (-53%).

### Rheswm dros yr Ymweliad

Ymweld â ffrindiau a pherthnasau a gwyliau yw'r rhesymau mwyaf poblogaidd dros ymweld â Chymru yn 2022. Bu gostyngiad mawr yn y niferoedd hyn o gymharu â 2019, yn fwyaf amlwg mewn ymweliadau gwyliau (-43%) ond yn gyffredinol hefyd. Mae'r gwariant, heblaw am astudio, wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â ffigurau 2019 hefyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfrain](#).

**Tabl 3: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn 2022 o ganlyniad i ymweld**

Rheswm dros ymweld	Cyfanswm yr ymweliadau	Y newid ers 2019 [%]	Cyfanswm y gwariant [£m]	Y newid ers 2019 [%]
Gwyliau	227,000	-43%	146	-18%
Busnes	95,000	-39%	64	-12%
Ymweld â ffrindiau a pherthnasau	338,000	-21%	145	-26%
Astudio	8,000	-39%	25	-56%
Arall	19,000	-38%	11	-16%

## Y farchnad

Mae dadansoddi hyn fesul gwlad tarddiad yn dangos mai Ewrop yw'r farchnad fwyaf poblogaidd o hyd, gyda Gogledd America yn dilyn yn agos. Mae'r ymweliadau sy'n weddill wedi'u gwasgaru ar draws gwledydd eraill ledled y byd. Mae'r gwledydd eraill hyn hefyd yn cynrychioli'r newid negyddol mwyaf arwyddocaol ers 2019. Mae'r un peth yn wir am wariant hefyd, gyda'r gostyngiad mwyaf i'w weld ar y cyfan yn y categori "Gwledydd Eraill". Ewrop sydd â'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

farchnad gwariant uchaf hefyd. Mae Gogledd America wedi cynyddu ychydig ar wariant o gymharu â 2019, sef yr unig gynnydd ers hynny.

**Tabl 4: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn 2022 yn ôl y marchnadoedd mwyaf**

Marchnad	Cyfanswm yr ymweliadau	Y newid ers 2019 [%]	Cyfanswm y gwariant [£m]	Y newid ers 2019 [%]
Gogledd America	111,000	-24%	70	+3%
Ewrop	460,000	-29%	181	-13%
o wlad yr UE	424,000	-30%	162	-17%
o wlad yr UE-15	352,000	-30%	139	-17%
o wlad arall yr UE	72,000	-30%	23	-18%
Gwledydd eraill	115,000	-51%	141	-41%
Cyfanswm y byd	686,000	-33%	391	-24%

Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2022


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

## Tueddiad hanesyddol

**Ffigur 1: Ymweliadau a gwariant yng Nghymru rhwng 2009 a 2022**



Mae'r graff hwn yn dangos Ymweliadau (mewn miloedd) ar yr echel chwith a gwariant (mewn £miliynau) ar yr echel dde rhwng 2009 a 2022. Mae'r graff yn dangos sut roedd gwariant ac ymweliadau wedi cynyddu ychydig ers 2009 ar duedd ar i fyny yn fras, ond nid yw'r adferiad ar ôl COVID wedi cyrraedd lefelau'r ymwelwyr ar ôl 2009. Mae gwariant wedi gwella'n dda er nad yw'r graff hwn yn cyfrif am gyfrifiadau o chwyddiant gan nad yw cymariaethau gwariant tymor real yn bodoli ar hyn o bryd.

## Data 2023

Mae data chwarteri 1, 2 a 3 ar gyfer 2023 wedi'u cyhoeddi gan yr Swyddfa

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ystadegau Gwladol (SYG). Sylwch fod y data hyn wedi'u marcio fel data dros dro a'u bod yn amodol ar gael eu hadolygu gan yr SYG cyn cyhoeddi'r data blynyddol llawn. Bydd unrhyw newidiadau a wneir gan yr SYG yn cael eu nodi mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol a bydd y data'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

## **Crynodeb o ddata 2023 hyd yma (o fis Ionawr hyd at fis Medi 2023)**

- Bu 750,000 o ymweliadau â Chymru hyd at fis Medi 2023 (10% yn is na'r un cyfnod yn 2019) a £390 miliwn mewn gwariant (heb ei addasu ar gyfer chwyddiant) (1% yn uwch na 2019 hyd yn hyn).
- Bu 3.17 miliwn o ymweliadau â'r Alban hyd at fis Medi 2023 (cynnydd o 21% ers 2019) a gwariant o £2.94 biliwn (cynnydd o 50% ers 2019).
- O safbwynt Llundain, bu 14.9 miliwn o ymweliadau yn ystod 2023 hyd yma (7% yn is na 2019) a gwariant cyffredinol o £12.3 biliwn (cynnydd o 9% o gymharu â 2019).
- Ar gyfer gweddill Lloegr bu 11.6 miliwn o ymweliadau yn 2023 hyd at fis Medi 2023 (gostyngiad o 10% o gymharu â 2019), a gwariant cyffredinol o £7.6 biliwn (cynnydd o 13% o gymharu â 2019).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Cyfansymiau

**Tabl 5: Cyfanswm yr ymweliadau a gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol â Chymru yn chwarteri 1, 2 a 3 yn 2023**

Cyfansymiau	Chw 1	Y newid ers Chw 1 2019 [%]	Chw 2	Y newid ers Chw 2 2019 [%]	Chw 3 2023	Y newid ers Chw 3 2019 [%]	Y 2023 lon i Medi	Y newid ers 2019 (lon i Medi) [%]
Cyfanswm yr ymweliadau	151,000	-4%	252,000	-17%	348,000	-8%	750,000	-10%
Cyfanswm y gwariant (£m)	67	23%	121	-8%	201	0%	390	+1%

Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2023

## Manylion cyswllt

Ymchwilydd: Phil Nelson  
E-bost: [tourismresearch@llyw.cymru](mailto:tourismresearch@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygrychedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/ymweliadau-gwariant-gan-ymwelwyr-rhyngwladol-chymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).